

# Cyngor Cymuned Banwy Community Council

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Banwy a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Banw ddydd Mawrth 9 Hydref am 7:30 p.m.

**Yn bresennol** - Cyng. D. Smyth (Cadeirydd), Cyng. G. Jenkinson, Cyng. J. Jones, Cyng. B. Smith, Cyng. D. Williams, Cyng. P Edwards, Cyng. J. Jones, y Cyng. Sir M. Alexander

**Ymddiheuriadau** - Dim

**Datganiadau o Fuddiant** - Dim

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf** - PENDERFYNODD y Cyngor dderbyn y cofnodion fel cofnod cywir ac awdurdodi'r Cadeirydd i'w harwyddo.

**Materion yn Codi** -

Mae yna dwll yn llawr y lloches bws yn Foel lle mae'r llawr wedi pydru. Cytunodd y Cyng. Jenkinson i gysylltu â Mike Perkins i gael dyfynbris.

**Gohebiaeth a Dderbyniwyd** -

Nododd y Cyngor fod gwasanaeth 111 newydd y GIG yn disodli Shropdoc. Dosbarthodd y Clerc daflenni y cytunodd y Cyngor i'w dosbarthu lle bo modd.

Nododd y Cyngor lythyr hefyd oddi wrth Bwyllgor Neuadd y Pentref ynglŷn â chyllid, a fyddai'n cael ei drafod unwaith y byddai'r Cyngor wedi derbyn set lawn o gyfrifon, y gofynnwyd amdanynt yn flaenorol.

**Adroddiad y Cynghorydd Sir** - dywedodd y Cyng. Alexander fod y peiriannydd priffyrdd wedi bod allan i weld y bont wrth Tŷ Cerrig i wneud arolwg o'r ategwaith a'r pileri. Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, byddai CSP yn cyflwyno cais cyfalaf yn 2019 ar gyfer y gwaith atgyweirio.

Soniodd y Cyng. Alexander wrth y Cyngor am sefydliad band eang gwledig o'r enw BARN o dan ofal Llywodraeth Cymru. Cytunodd y Cyngor i roi hyn ar yr agenda ar gyfer mis Tachwedd.

Anogodd y Cyng. Alexander bawb i ymateb i ymgynghoriad yr ysgolion a dywedodd fod yna ffurflen syml i'w llenwi ar-lein.

**Adroddiad y Cadeirydd** - Dywedodd y Cadeirydd fod adroddiad drafft yr IRPW wedi'i ryddhau a gofynnodd i'r Clerc roi hyn ar yr agenda ar gyfer mis Tachwedd. Dywedodd y Cadeirydd hefyd fod cyfarfod Unllais Cymru ddydd Mercher ond nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Dywedodd y Cyng. B. Smith ei bod yn bosibl y gallai ef fynd.

Cafodd adroddiad ROSPA ei gynhyrchu ynghylch y maes chwarae ac roedd wedi datgelu ychydig o faterion pwysig lle mae angen atgyweiriadau.

**Adroddiadau'r Cynrychiolwyr** -

Y Ganolfan - roedd y Cyng. L. Smith a P. Edwards wedi mynychu cyfarfod diweddar, a oedd yn un cynhyrchiol iawn ac a oedd wedi trafod ystod o syniadau.

**Adolygiad Cyllid a Chwarterol** - £ 10,754.12 ar 2ail Hydref 2018

**Taliadau** -

C Pritchard (Cyflog Misol) - £296.02

PENDERFYNODD y Cyngor dderbyn yr holl anfonebau a gwneud y taliad perthnasol.

**Archwiliad** - Dywedodd y Clerc fod Cyngor Banwy wedi cael statws archwilio diamod. Yr unig gyngor yr oedd angen ei nodi oedd lefel y cronfeydd wrth gefn a gedwir gan y Cyngor.

**Cyfethol** - Dywedodd y Clerc mai dim ond un person a fynegodd ddiddordeb yn swydd wag y Cynghorydd. Roedd y Cynghorwyr i gyd o blaid ac yn derbyn cais Richard Jones. Bydd y Clerc yn cysylltu â Richard.

**Sul y Cofio** - Dywedodd y Cadeirydd y byddai Aled Evans, yr ysgol gynradd a hefyd y CFFI yn chwarae rhan yn y gwasanaeth. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu torch ar ran y Cyngor, prynu papur mwy trwchus ar gyfer y ddalen gwasanaeth a chyhoeddi manylion y gwasanaeth yn y County Times ar gyfer Tachwedd 1<sup>af</sup> a'r 8<sup>fed</sup>.

**Adolygu'r Ysgolion** - Cytunodd yr aelodau i gyd y dylai'r Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai'r Cynghorwyr Smyth a Jenkinson yn cyfansoddi llythyr drafft ar y cyd.

**Priffyrdd a Llwybrau Troed** - Gweler adroddiad y Cynghorydd Sir.

### **Cynllunio**

**18/0261 / FUL** - Blowty Bach - Adfer ac adnewyddu annedd a adawyd yn wag, gosod gwaith trin carthffosiaeth a'r holl waith cysylltiedig - Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn. Pawb o blaid.

### **Pwyntiau Gwybodaeth Aelodau** - Dim

Cadarnhau y cynhelir cyfarfod nesaf Cyngor Cymuned Banwy yn ddydd Mawrth 13<sup>eg</sup> Tachwedd 2018 am 7.30 p.m.

Llofodwyd.....(Caedeirydd)

Dyddiad.....